

Tasg 1

Beth sy'n gyffredin?

Beth sy'n gyffredin i'r lluniau?

Maen nhw i gyd yn dangos adeilad "gwahanol".

Beth ydy'r adeiladau yn y sleidiau?

1. Darllenwch y cliwiau a phenderfynwch pa ddisgrifiad sy'n mynd gyda pha sleid. Rhowch resymau dros eich atebion.

Siop yw'r adeilad yma ac mae'n gwerthu gwlân a chrefftau. Mae'r siop mewn tref fach o'r enw Tirau ar ynys ogleddol Seland Newydd a chafodd ei hadeiladu, i ddechrau, er mwyn denu twristiaid i'r ardal. Mae adeilad diddorol arall gerllaw. Chwiliwch am lun ohono.

a. Pa sleid?

Pam?

Eglwys yn Chiayi, Taiwan, yw'r adeilad yma. Mae hi 26 m (55 troedfedd) o uchder ac yn fwy na 10 m o led. Mae'n cynnwys dros 320 o baneli gwydr.

Dydy'r eglwys ddim yn cael ei defnyddio ar gyfer addoli Duw, ond yn lle hynny, mae'n cael ei defnyddio ar gyfer tynnu lluniau priodas. Mae'n adeilad hardd iawn.

b. Pa sleid?

Pam?

Tŷ pum llawr yn Sofia, Bwlgaria, yw'r adeilad yma.

Mae'n lliwgar ac oherwydd y siâp dydy'r waliau ddim yn syth a dydy'r corneli ddim yn sgwâr, ond mae'n dŷ ecogyfeillgar gan ei fod wedi cael ei adeiladu o ddefnyddiau ecogyfeillgar.

I fynd i mewn, rhaid cerdded drwy'r geg. Sylwch ar y to. Yn lle simdde arferol, mae gwenynen fawr felen ac mae golau ar gyfer y nos yng nghyrrn y creadur. Diddorol!

c. Pa sleid?

Pam?

2. Darllenwch y ffaith yma. I ba lun mae'n perthyn, tybed?
Rhowch reswm dros eich ateb.

Ffaith ddiddorol

Mae'n adeilad hardd ac mae llawer o bobl wrth eu bodd yn dod i'w weld ond mae stori drist yn perthyn iddo.

Yn ystod y 1950-1960au, roedd llawer o bobl yr ardal yn dioddef o'r clefyd Blackfoot disease ar ôl iddyn nhw yfed dŵr oedd yn cynnwys arsenic. Roedd un ferch 24 oed i fod i briodi ond cafodd hi'r clefyd ofnadwy a bu'n rhaid torri ei choesau i ffwrdd.

Cafodd ei phriodas ei chanslo. Roedd hi'n drist ofnadwy oherwydd hyn i gyd a threuliodd ei bywyd mewn eglwys.

Pa sleid?

Pam?

3. Ble mae'r adeiladau "gwahanol" hyn i'w gweld? Dangoswch y lleoedd a'r gwledydd ar y map.

